

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

### Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Dydd Mawrth 21 Ionawr 2025

**Yn bresennol:** Cyng. Celfyn Furlong – Cadeirydd

**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, William Victor Owen, Sharon Parry, Evan Wyn Robertson, Einir Thomas, Gareth Thomas a Dyfed Williams

**Hefyd yn bresennol:** Mai Owen – Clerc / SAC a Ken Taylor – Cynghorydd Sir. . .

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Siân Enfys Jones a Gordon Owen.
2. **Datganiad o Ddiddordeb** – datganiadau o fuddiant personol:  
Cyng. Gwilym O. Jones yn eitem 4.2 Caergeiliog, Neuadd y Pentref.  
Cyng. K. Taylor - materion cynllunio oherwydd ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.
3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**  
Derbyniwyd cofnodion 19 Tachwedd 2024 fel rhai cywir (Cynnig Cyng. E. Thomas, eilydd y Cyng. E. W. Robertson.)
4. **Materion yn codi o'r cofnodion.**
  - 4.1 Cae Chwarae : Dim byd pellach i'w adrodd. Bydd y clerch yn sicrhau fod y gwaith cynnal a chadw yn cael ei wneud cyn gynted ag y byddai'r tywydd yn gwella a'r safle wedi sychu digon i ganiatáu mynediad i gerbydau.
  - 4.2 Neuadd y Pentref:  
Llofnodwyd y ddogfen brydles derfynol erbyn hyn ac roedd T.R. Evans Hughes wedi gwneud cais ffurfiol i Gofrestrfa Tir EF i'w chofrestru – roedd ffi o £100 i'w thalu am hyn. Roedd y gwaith ar y ramp wedi'i gwblhau a chadarnhaodd y clerch fod y Cyngor wedi cydymffurfio'n llawn â gofynion y dyfarniad grant. Roedd hi yn aros am amcangyfrifon ar gyfer system wresogi newydd a byddai'n dilyn unrhyw grantiau a allai fod ar gael i gynorthwyo gyda gweddill y gwaith adnewyddu.  
Roedd dwy goeden fawr wedi syrthio ar dir y neuadd, un yn gorffwys ar y cynwysyddion oedd yn perthyn i Môn Caravans, roedd y llall yn pwyso dros yr hen floed toiled. Anodd oedd dweud faint o ddifrod oedd yno ond fe gysylltwyd â'r yswirwyr beth bynnag. Penderfynwyd: derbyn dyfynbris o £1,100 +TAW gan R.G. Hire ac i ofyn iddynt dynnu'r goeden a oedd yn effeithio ar eiddo Môn Caravans petai'r yswirwyr yn talu ai peidio. Gofynnwyd i'r clerch gael ail ddyfynbris ar gyfer tynnu'r ail goeden gan fod y gwreiddiol yn cynnwys y gost o ddymchwel y bloc toiledau - roedd yr Ymddiriedolwyr yn awyddus i asesu'r strwythur hwnnw cyn cytuno iddi gael ei dymchwel.  
  
Cytunwyd i gynnal diwrnod agored cyn gynted ag y bydd y tywydd yn gwella ym mis Ebrill/Mai.
  - 4.3 Defibriliwr Caergeiliog - roedd y clerch wedi prynu hwn ac roedd CSYM wedi cytuno i'w osod.
  - 4.4 Unrhyw fater arall sy'n codi o'r cofnodion: dim

# CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

## 5. Cynllunio

- 5.1 FPL/2024/345 Tyn Llan, Y Fali / Y Fali.  
Cais llawn ar gyfer creu sied ffrâm borthol a strwythur to dros y clamp silwair bresennol – dim gwrthwynebiad.
- 5.2 Penderfyniad / Penderfyniad FPL/2024/155 Y Stablau, Caergeiliog – wedi'i ganiatáu.

## 6. Materion Ariannol

- 6.1 Cyfrifon 2024/25 – Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.11.2024 i 31.12. 2024 ynghyd â chysoniad banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.  
Cyfrif cyfredol £ 35,138.70, Cyfrif cadw £ 4081.97.
- 6.2 Praesept 2025/26  
Cafwyd trafodaeth fanwl am ragolygon o'r cyfrifon hyd at 31 Mawrth 2025 a'r gwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn 2025/26. Wedi ystyried yr wybodaeth honno a'r cronfeydd wrth gefn a ragwelir ar 31 Mawrth 2025, cytunwyd yn unfrydol i ofyn am praesept o £21,000 ar gyfer 2025/26. Roedd yr Aelodau'n ymwybodol iawn o'r cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor Sir ac roeddent yn amharod iawn i roi baich ychwanegol ar y trethdalwyr ond roedd yn anochel y byddai cynnal a gwarchod neuadd y pentref yn cael effaith sylweddol ar arian y Cyngor Cymuned.
- 6.3 Taliadau ers y cyfarfod diwethaf: nodwyd / cytuno.

Cyflog (Tachwedd a Rhagfyr)	£705.94	Neuadd Caergeiliog	£545
Archwilio Cymru	£200	T R Evans Hughes	£100
Diffibriliwr (Caergeiliog)	£1656	Arolygiad ardal chwarae	48.80

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

## 7. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.

- 7.1 Fforwm Cyngorau Tref a Chymuned - cofnodion a dyddiad y cyfarfod nesaf
- 7.2 Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Asbestos
- 7.3 Canllawiau Digidol - Storio Cwmwl
- 7.4 Hyfforddiant Un Llais Cymru
- 7.5 Cronfa Gwella Amgylcheddol a Chymunedol
- 7.6 Arolwg o'r Pwyllgor Ardal
- 7.7 Cynghraid Bro'r Llynnoedd 28.1.2025

## 8 Adroddiadau Aelodau

- 8.1 Cyng. Einir Thomas: preswlydd wedi gofyn iddi a fyddai'r terfyn cyflymder o 20mya yn

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

cael ei symud o'r tu hwnt i Fryn Ednyfed yn agosach at y pentref – cadarnhawyd y byddai CSYM yn ailystyried y llecyn A5 Bryngwran i Gaergeiliog yn y dyfodol agos.

- 8.2 Sharon Parry: Cwynodd fod parcio yn dal i fod yn broblem ddifrifol ar Ffordd Minffordd, roedd cerbydau'n rhwystro'r palmentydd ac yn ei wneud yn hynod beryglus i gerddwyr. Cytunwyd y dylai'r clercc ysgrifennu at y Prif Gwmni Rheoli i ofyn iddynt ddarparu mwy o fannau parcio.
- 8.3 Cyng. William Victor Owen: yn awgrymu fod y Cyngor Cymuned yn gofyn i'r heddlu lleol ddod i'r cyfarfod a/neu ddarparu diweddariad ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ardal ar hyn o bryd.
- 8.4 Clerc y Cyngor Cymuned: Roedd Cyngor Cymuned Llanfaelog wedi gofyn a oedd Cyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll yn cael gwybod am faterion a drafodwyd gan Fwrdd Gofalwyr Tywyn Trewan. Er bod y rhan fwyaf o'r Bwrdd yn gynrychiolwyr y Cyngor Cymunedau, roedd yn ymddangos nad oedd byth unrhyw ymgynghori â'r Cyngorau priodol ac roedd pryder difrifol am y diffyg tryloywder. Roedd Cyngor Llanfaelog hefyd wedi codi'r cwestiwn o yswiriant ac indemniad gan awgrymu y gallai'r Cyngorau Cymuned fod yn atebol am benderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd Gofalwyr. Ategodd sawl Aelod y pryderon a godwyd yn Llanfaelog, gofynnwyd i'r ddau gynrychiolydd gael ymateb gan y Bwrdd Gofalwyr.

### 9. Cyfarfod nesaf - 18 Chwefror 2025

: